



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures

Gwybodaeth ddiweddaraf am Ddyfodol Clinigol Clinical Futures Update



Newyddion i'ch cymuned News for your Community

13/11/2020

Croeso i **rifyn arbennig** o'n cylchlythyr! Gwyddom nad yw'n amser i'r rhifyn hwn eich cyrraedd eto, ond gyda llai nag wythnos i fynd cyn y bydd Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor ei ddrysau i gleifion ar ddydd Mawrth 17 Tachwedd 2020, dyma ni'n ateb rhai o'r **cwestiynau cyffredin** yr ydym wedi'u cael gan bobl leol. Byddem yn hynod ddiolchgar pe gallech ledaenu'r wybodaeth a'r dolenni gwefannau yn y diweddariad hwn i helpu lledaenu'r negeseuon pwysig hyn mor bell ag y gallwn yn ein cymunedau yng Ngwent.

**"Pa bryd fyddai
angen i mi
fynd i'r uned
Damweiniau ac
Achosion Brys
yn y Faenor?"**



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures

O 17 Tachwedd 2020 pan fydd yr Ysbyty Athrofaol y Faenor newydd yng Nghwmbrân yn agor, os oes gennych anaf neu salwch sy'n bygwth bywyd, mae angen i chi ffonio 999 ar unwaith neu fynd i Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn syth.

Mae anafiadau a salwch difrifol sy'n bygwth bywyd yn cynnwys:

- Anawsterau anadlu difrifol,
- Poen neu waedu difrifol,
- Poen yn y frest neu amheuaeth o strôc
- Anafiadau trawma difrifol

Os nad yw'n argyfwng sy'n bygwth bywyd a'ch bod yn ansicr am ble i fynd i gael triniaeth, ffoniwch 111 i gael cymorth a

chyngor.

Am ragor o fanylion ynghylch Gwasanaethau Ysbyty Brys, gallwch lawrlwytho taflen wybodaeth yn:


<https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/clinical-futures/official-leaflets/gwasanaethau-ysbyty-brys/>

O 17 Tachwedd 2020, bydd yr Adran Achosion Brys wedi'i lleoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân.

Bydd yr Adran Achosion Brys yn yr ysbyty newydd yn trin anafiadau a salwch difrifol sy'n bygwth bywyd. Bydd y rhan fwyaf o gleifion sydd angen sylw'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn cyrraedd gydag ambiwlans.

Mae Unedau Mân Anafiadau yn trin oedolion a phlant dros un oed, sydd ag ystod eang o anafiadau nad ydynt yn bygwth bywyd. Caiff yr unedau hyn eu rhedeg gan dîm profiadol o ymarferwyr nyrsio brys, hynod fedrus, sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.

I ddysgu mwy am Wasanaethau Ysbyty Brys ac Unedau Mân Anafiadau, mae taflenni gwybodaeth ar gael yn <https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/taflenni-gwybodaeth-am-ddyfodol-clinigol/>



Mae Unedau Mân Anafiadau yn trin oedolion a phlant dros un oed, sydd ag ystod eang o anafiadau nad ydynt yn bygwth bywyd. Caiff yr unedau hyn eu rhedeg gan dîm profiadol o ymarferwyr nyrsio brys, hynod fedrus, sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig.

Os ydych yn ansicr ynglŷn ag a ddylech fynd i Uned Mân Anafiadau ai peidio, ffoniwch 111 i gael cymorth a chynghor.

Am ragor o fanylion ynghylch Unedau Mân Anafiadau, gallwch lawrlwytho taflen wybodaeth yn: <https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/clinical-futures/official-leaflets/unedau-man-anafiadau/>

Wedi iddo agor ar 17 Tachwedd 2020, bydd yr holl enedigaethau dan ofal ymgynghorydd meddygol yn digwydd yn Ysbyty Athrofaol y Faenor newydd yng Nghwmbrân. Yn ogystal, bydd canolfan ychwanegol ar gyfer genedigaethau dan ofal bydwagedd.

Bydd Canolfannau Geni dan ofal Bydwagedd yn parhau yn ein hysbytai eraill - Brenhinol Gwent, Neuadd Nevill, Ysbyty Ystrad Fawr, ac Ysbyty Aneurin Bevan.

Am ragor o fanylion ynglŷn y newidiadau i wasanaethau gofal iechyd, ein hysbytai a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, ewch i'n gwefan: <https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/dyfodol-clinigol-gofalu-amdanoch-chi-ach-dyfodol/>





Mae Ysbyty Athrofaol y Faenor wedi'i lleoli yn Llanfrechfa, Cwmbrân. Pwysig yw cofio yw y bydd y rhan fwyaf o gleifion sydd angen sylw'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn cyrraedd gydag ambiwlans, oherwydd y bydd yn gofalu am bobl sydd angen gofal brys neu arbenigol yn unig.

Er mwyn sicrhau gofal o'r safon uchaf mewn achos o argyfwng, mae angen i ni fynd â phobl i'r lle cywir ar y tro cyntaf.

Ar gyfer y rheiny sy'n ymweld ag anwylyd yn yr ysbyty, bydd cysylltiadau bysiau uniongyrchol, 7 diwrnod yr wythnos o hybiau trafndiaeth Cwmbrân a Chasnewydd. Nid oes bws uniongyrchol o Gaerffili ar hyn o bryd, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda grwpiau trafndiaeth gymunedol ac awdurdodau lleol i ddatrys problemau lle mae'r galw am hynny.

Oherwydd amserlenni newidiol yn ystod pandemig COVID-19, rydym yn eich cyngori i wirio gyda gweithredwyr trafndiaeth gyhoeddus cyn cychwyn ar eich taith.

Newport Bus - <https://www.newportbus.co.uk/Journey-Planner>
 Stagecoach - <https://www.stagecoachbus.com/.../urgentservice-changes>
 Phil Anslow - <https://www.philanslowcoaches.co.uk/bus-services/>

Ar gyfer yr holl weithredwyr bysiau eraill yn ne Cymru, ewch i:
<https://www.traveline.cymru/coronavirus/>
 Gwasanaethau'r rheilffordd <https://tfwrail.wales/check-train-times-buy-tickets>

Gobeithio y bydd gennym ragor o newyddion yn yr wythnosau nesaf ynghylch opsiynau trafndiaeth gymunedol a byddwn yn rhannu'r diweddaraf gyda chi.

Mae'r Adran Frys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn wahanol iawn i'r rheiny y mae pobl wedi arfer ymweld â nhw yn ysbytai Brenhinol Gwent a Neuadd Nevill.

Bydd Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn gweld cleifion sydd ag anafiadau a salwch difrifol sy'n bygwth bywyd yn unig, gan gynnwys:

- Anawsterau anadlu difrifol,
- Poen neu waedu difrifol,
- Poen yn y frest neu amheuaeth o strôc,
- Anafiadau trawma difrifol (e.e. ar ôl damwain car)



Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn mynd i'r ysbyty newydd gydag ambiwlans ar ôl galw 999, neu byddant wedi'u hatgyfeirio yno gan arbenigwr proffesiynol, megis meddyg teulu.

Mae'r ystafell aros yn fach iawn yn yr ysbyty newydd ac nid yw'r Adran Frys yn trin mân anafiadau neu salwch. Os byddwch yn cyrraedd yr Adran Frys gyda salwch neu

anaf y gellir ei drin yn rhywle arall, cewch eich anfon i rywle arall. Os oes gennych anaf, neu eich bod yn wael eich iechyd a'ch bod yn ansicr am le i fynd, ffoniwch 111 am gymorth a chynghor. Am ragor o fanylion yngylch y newidiadau i wasanaethau gofal iechyd, ein hysbytai a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, ewch i'n gwefan <https://bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/dyfodol-clinigol-gofalu-amdanoch-chi-ach-dyfodol/>



Pwysig yw cofio yw y bydd y rhan fwyaf o gleifion sydd angen sylw'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor yn cyrraedd gydag ambiwlans, oherwydd y bydd yr ysbyty yn gofalu am bobl sydd angen gofal brys neu arbenigol yn unig. Mewn achos o'r fath, y parafeddyg fydd yn penderfynu ar y lle gorau i fynd â chlaf yn dibynnu ar ei anghenion.

Mae criwiau Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn arbenigwyr hynod fedrus, sy'n gallu trin a sefydlogi cleifion cyn mynd â nhw i'r ysbyty mwyaf priodol, os yw hynny'n angenrheidiol. Mae'r ambiwlansys eu hunain o'r radd flaenaf ac yn cynnwys amrywiaeth

eang o gyfarpar gofal brys, gan gynnwys ocsigen, diffibriliwr, cyfarpar achub bywydau o safon a chyffuriau brys gan gynnwys poenladdwyr.


Er mwyn sicrhau gofal o'r safon uchaf mewn achos o argyfwng, mae angen i ni fynd â chleifion i'r lle cywir ar y tro cyntaf. Yn ogystal, mae helipad pwrpasol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ar gyfer Ambiwylans Awyr Cymru.

Am ragor o fanylion ynghylch Gwasanaethau Ysbyty Brys, gallwch lawrlwytho taflen wybodaeth yn <https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/clinical-futures/official-leaflets/gwasanaethau-ysbyty-brys/>

Y Symud Mawr!

O Ddydd Sadwrn 14 hyd at Ddydd Mawrth 17 Tachwedd, byddwn yn defnyddio ein sianelau cyfryngau cymdeithasol i fynd â phobl leol y tu ôl i'r llen y 'Symud Mawr' i'r ysbyty newydd. Bydd nifer o luniau, fideos a chyfweiliadau gydag aelodau o staff wrth iddynt baratoi i agor yr ysbyty newydd yn cael eu rhannu'n fyw wrth iddynt ddigwydd.

Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy ABHB.enquiries@wales.nhs.uk neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol:



@BwrddIechydAneurinBevan



@BIPAneurinBevan



@BIPAneurinBevan